5

# Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Chodi Arian Elusennol:

# **Cymynroddion dan y chwyddwydr**

**Cynhyrchwyd gan:** Institute of Fundraising; FR Fundraising Regulator – Rheoleiddiwr Codi Arian

**Adolygwyd gan:** ico. Information Commissioner's Office

## Cyflwyniad

Daw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (y Rheoliad) i rym ar 25 Mai 2018 i ddiweddaru'r fframwaith diogelu data presennol yn y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn cwmpasu pob sector a phob sefydliad - sy'n golygu bod rhaid i bobl mewn gwahanol sefydliadau feddwl am y data personol y gallent fod yn ei brosesu a rhoi'r egwyddorion ar waith yn eu maes gwaith nhw.

## Codi arian cymynroddion

At ddibenion y canllaw hwn, ystyr codi arian cymynroddion yw gweithgareddau codi arian lle mae'r diben yw annog unigolion i adael cymynrodd yn ei ewyllys.

## Materion allweddol ar gyfer codwyr arian cymynroddion

Mae'r Rheoliad yn gymwys i 'ddata personol', sy'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r wybodaeth honno - mae hyn yn cynnwys enw, cyfeiriad, manylion cyswllt ond gallai hefyd gynnwys dwy neu ragor o ddarnau o wybodaeth a allai, o'u cyfuno, enwi unigolion penodol gan gynnwys, er enghraifft, cyfuniad o ryw, dyddiad geni, dangosydd daearyddol a disgrifwyr eraill. Mae diffiniad llawnach o "ddata personol" i'w weld yn https://ico.org.uk/

Yn achos codi arian a gweinyddu cymynroddion, mae hyn yn golygu pryd bynnag y byddwch yn 'prosesu' data personol (e.e. ar gyfer marchnata uniongyrchol) mae'n rhaid i chi wneud hynny mewn modd teg a chyfreithlon. Hefyd bydd rhaid i chi gadw'r data yn ddiogel a chymryd camau i sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfoes.

*Sylwch: Mae'r darpariaethau ar gyfer 'data personol' yn gymwys i unigolion byw - felly mae pobl sydd wedi gadael cymynrodd ac wedi marw y tu allan i gwmpas y Rheoliad. Fodd bynnag, mae dyletswydd cyfrinachedd o hyd y mae angen ei ystyried wrth wneud unrhyw ddatgeliadau.*

Mae'r modd yr hoffai codwyr arian cymynroddion brosesu data personol yn ystod eu gweithgareddau yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- ymgymryd ag ymchwil allanol (er enghraifft, ar-lein neu mewn cyfeirlyfrau cyhoeddedig) i enwi unigolion a all fod â chyswllt arbennig â'ch achos elusennol neu a all fod yn agored i ddull codi arian. Gall hyn gynnwys edrych ar gefndiroedd a dylanwadau'r unigolion hynny, eu sgrinio ar gyfer nodweddion arbennig megis lefel eu cyfoeth neu ddefnyddio data sydd ar gael yn gyhoeddus amdanynt.
- gwneud cysylltiad â'r unigolion hynny i geisio rhodd elusennol, darparu gwybodaeth ynghylch sut i wneud ewyllys neu roi'r diweddaraf iddynt am waith eich elusen.

- storio gwybodaeth gyswllt yr unigolion hynny.
- cyfathrebu ag ysgutorion i ddilyn i fyny hysbysiadau cymynroddion.

Wrth brosesu data personol, mae'n rhaid i chi ystyried dau fater allweddol:

- pa ddibenion yr hoffech eu prosesu'r data ar gyfer eu cyfer; a
- sut y byddwch yn dangos bod y data wedi cael ei brosesu'n gyfreithlon.

## Cwestiynau allweddol i godwyr arian cymynroddion eu gofyn am y Rheoliad

### 1. Sut galla i gysylltu ag unigolyn mewn modd cyfreithlon?

Os ydych yn hyrwyddo eich elusen i unigolion penodol, er enghraifft trwy gysylltu ag unigolyn i geisio ei gymorth, mae hyn yn debygol o gael ei gynnwys o fewn y diffiniad o farchnata uniongyrchol. Mae marchnata uniongyrchol yn cynnwys hyrwyddo amcanion a syniadau elusennau. Fel arall, os ydych yn gwneud gwaith ymchwil ar unigolion neu'n casglu data ar yr unigolion hynny at ddiben ceisio cymynrodd, bydd eich gweithgaredd yn cynnwys prosesu ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol.

Mae'r amrywiaeth lawn o seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu data personol i'w gweld ym ***Mhapur Briffio 1***.

Fodd bynnag, os ydych yn gwneud gwaith marchnata uniongyrchol, mae'n debyg y bydd angen i chi ddibynnu ar naill ai gydsyniad cadarnhaol yr unigolyn neu fudd cyfreithlon fel sail i gysylltu â nhw.

#### a) Cydsyniad

Os yw unigolyn wedi rhoi ei fanylion cyswllt i chi gyda chydsyniad i chi gysylltu at ddiben arbennig (er enghraifft i anfon manylion am adael cymynrodd), yna cydsyniad yw'r sail orau mae'n debyg ar gyfer unrhyw gysylltiad yn y dyfodol. Enghraifft o hyn fyddai os ydynt wedi darparu manylion cyswllt ac wedi ticio blwch ar ffurflen gydsyniad i nodi eu bod nhw'n hapus i glywed gennych ynghylch gadael rhodd.

Fodd bynnag, mewn sawl achos byddwch yn cysylltu ag unigolyn heb gyflwyniad blaenorol, felly efallai na fydd defnyddio cydsyniad fel eich sail gyfreithlon yn ymarferol. Mae'r trothwy ar gyfer cydsyniad o dan y Rheoliad yn uchel; rhaid i gydsyniad "gael ei roi o'ch gwirfodd, bod yn benodol, yn wybodus ac yn arwydd diamwys o ddymuniadau'r unigolyn", felly mae'n rhaid i chi wirio i weld a allwch ddangos eich bod chi wedi bodloni'r holl feini prawf er mwyn cydymffurfio.

Cofiwch hefyd fod deunyddiau cyfathrebu sy'n amlinellu opsiynau cydsyniad ynddo'i hun yn fath o farchnata uniongyrchol. Bydd rhaid i chi gael sail wahanol er mwyn cyfiawnhau cyfathrebu "opsiynau cydsyniad" (er enghraifft budd cyfreithlon - gweler isod) os na chawsoch unrhyw ganiatâd blaenorol gan yr unigolyn i ddefnyddio ei ddata at ddibenion marchnata uniongyrchol.

#### b) Budd cyfreithlon

Os yw cydsyniad yn debygol o fod yn rhy anodd i'w gael, gall codwyr arian cymynroddion allu defnyddio budd cyfreithlon fel sail gyfreithiol ar gyfer cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol mewn sawl achos, ar yr amod y gallant ddangos fod eu dulliau prosesu yn deg. Os mai budd cyfreithlon yw'ch sail ar gyfer prosesu, mae'n rhaid i chi:

- dangos eich bod wedi ystyried buddiannau'r unigolyn yn erbyn eich buddiannau chi trwy wneud asesiad budd cyfreithlon (**gweler Papur Briffio 1 i gael rhagor o fanylion**).

- gadael i'r unigolyn dan sylw wybod eich bod chi'n prosesu ei ddata ac at ba ddiben.

- cynnig cyfle iddynt optio allan o gyfathrebu ymhellach os hoffent wneud hynny.

Mae rhagor o wybodaeth ar y "prawf 3 cham" ar gyfer budd cyfreithlon i'w weld yng Nghanllaw'r ICO i'r Rheoliad (https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/lawful-basis-for-processing/legitimate-interests/)

Pan fyddwch yn defnyddio budd cyfreithlon, fel arfer byddwch yn gallu defnyddio hysbysiad preifatrwydd i ddangos sut y byddwch yn prosesu data personol unigolyn a sut y gall yr unigolyn optio allan ar yr amod eich bod yn rhoi gwybod i'r unigolyn pan fyddwch yn gohebu ag ef.

**2. Am faint fydd y cydsyniad yn para, neu am faint fyddwn ni'n gallu defnyddio budd cyfreithlon i gyfathrebu â chefnogwyr?**

Mae am faint fydd y cydsyniad yn para neu am faint y gallwch chi ddefnyddio budd cyfreithlon yn dibynnu ar y diben rydych yn defnyddio data unigolyn ar ei gyfer. Dylech ddweud wrth yr unigolyn beth yw'ch dibenion naill ai pan fyddwch yn cael ei gydsyniad neu, yn achos budd cyfreithlon, trwy roi gwybodaeth sy'n esbonio sut y byddwch yn defnyddio ei ddata.

Pan nad yw'ch dibenion ar gyfer defnyddio data personol yn berthnasol mwyach, rhaid i chi naill ai ddileu'r data neu (mewn achosion lle rydych yn nodi diben newydd ar gyfer ei gadw), naill ai geisio cydsyniad newydd neu, os ydych yn defnyddio budd cyfreithlon fel eich sail, anfon gwybodaeth preifatrwydd wedi'i diweddaru sy'n esbonio pam a sut rydych yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r data hwn a'r dibenion newydd ar gyfer gwneud hynny. Dylech adolygu'ch data yn gyson er mwyn sicrhau bod eich diben dros gysylltu heb newid.

Hefyd mae'n rhaid i chi roi cyfleoedd hawdd i bobl dynnu eu cydsyniad yn ôl neu roi'r gorau i glywed gennych chi. Mae paragraffau 63, 97 a 99 o Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth yr Canllawiau Marchnata Uniongyrchol yn amlinellu rhai ffactorau i ystyried pa mor aml i chi adolygu eich cydsyniad efo unigolion neu adnewyddu gwybodaeth preifatrwydd.

**3. Beth am gyfathrebu ag aelodau o'r teulu ynghylch gweinyddu ystad pan fydd rhywun wedi gadael cymynrodd?**

Bydd elusennau yn aml yn cysylltu â'r teulu neu berthynas agosaf cefnogwr sydd wedi gadael cymynrodd fel rhodd. Gellir gwneud hyn i gydnabod haelioni'r rhoddwr, dangos cydymdeimlad, gwirio dewisiadau a barn y teulu ynghylch sut yr hoffai i'r elusen gofio'r rhoddwr neu gadarnhau'r prosiectau y bydd rhodd y rhoddwr yn cyfrannu tuag atynt.

Weithiau bydd yr elusen yn cyfathrebu trwy gyfreithiwr sy'n gweinyddu'r ystad. Os na, gall elusennau ysgrifennu at y teulu, ond mae'n rhaid i chi fod yn ofalus nad yw'r cyfathrebu yn llithro rhag bod yn ddiben 'gweinyddol' i fod yn fath o gyfathrebu marchnata uniongyrchol. Os yw'n dechrau bod yn fath o gyfathrebu marchnata uniongyrchol (er enghraifft, gofyn a yw'r perthynas agosaf am gefnogi'r elusen yn y dyfodol neu gael gwybodaeth megis cylchlythyr), yna byddai'r un rheolau yn gofyn am gydsyniad neu fudd cyfreithlon yn gymwys.

**Materion eraill i godwyr arian cymynroddion eu hystyried:**

- Ydych chi'n prosesu data personol sensitif?
  Bydd rhaid i unrhyw ddata personol a ddosberthir fel data 'sensitif' gael cydsyniad penodol gan yr unigolyn i'w brosesu. Mae data personol sensitif yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, wybodaeth hiliol neu dras ethnig, yn ogystal ag unrhyw gyflwr corfforol neu iechyd meddwl. Gall codwyr arian cymynroddion gael gwybod am ddata personol sensitif (e.e. gallai rhywun ddweud wrth yr elusen ei fod yn gadael rhodd yn ei ewyllys i'r achos i helpu trin clefyd y maent yn dioddef ohono). Gallwch gofnodi a chadw'r wybodaeth honno er mwyn i chi allu cyfathrebu mewn modd sensitif a phriodol â chefnogwr a'i deulu, ond bydd rhaid i chi gael cydsyniad penodol (neu sail arall, os yw'n gymwys) i wneud hynny.

- Ystyried cynnal Asesiad Effaith Data Diogelu
  Un o elfennau allweddol y Rheoliad yw bod yn atebol a rhoi prosesau llywodraeth da yn eu lle. Un ffordd y gall sefydliadau nodi'r dull mwyaf effeithiol o gydymffurfio â'i rwymedigaethau diogelu data a bodloni disgwyliadau unigolion o breifatrwydd yw cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data. Os credwch fod risg uwch i hawliau unigolion (e.e. cysylltu â rhoddwr sydd heb gyfrannu am sawl blwyddyn, ond oedd â hanes o ymgysylltu a rhoi cymorth ariannol i'ch elusen, gyda chyfathrebu cymynroddion), yna gall gynnal Asesiad eich helpu i asesu a oes angen ac a yw'n gymesur i brosesu mewn perthynas â'r diben ac unrhyw risgiau i unigolion. Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar ganllaw'r ICO ar gynnal asesiadau effaith preifatrwydd.

- Codi arian cymynroddion yn erbyn gweinyddu cymynroddion
  Y tu hwnt i gyfathrebiadau cymynroddion a anfonir at ddibenion marchnata uniongyrchol, mae dyletswydd gan weinyddwyr cymynroddion i wireddu dymuniadau terfynol y rhoddwr mewn modd amserol. Bydd hyn yn golygu cyfathrebu â chyfreithiwr ac ysgutor yr ystad, a gall hefyd gynnwys y perthynas agosaf a'r teulu. Ar gyfer y perthynas agosaf a'r teulu, bydd rhaid i chi wirio ble a sut rydych wedi derbyn ei fanylion (e.e. yn uniongyrchol ganddynt neu drwy gyfreithiwr), adolygu unrhyw gyfathrebu neu ddewisiadau blaenorol y maent efallai wedi'u nodi a gofalu i gyfathrebu mewn modd priodol a sensitif. I gael rhagor o wybodaeth gweler canllaw'r Institute of Legacy Management.

- Cofiwch am y gofynion yn y Cod Ymarfer Codi Arian
  Ochr yn ochr â gofynion diogelu data, dylid cofio y dylai sefydliadau codi arian ddilyn y Cod Ymarfer Codi Arian bob amser.

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriadau allweddol at y Rheoliad a chyfeirio:** | **ICO**<br>Canllaw i'r Rheoliad<br>https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/<br>Canllaw Marchnata Uniongyrchol:<br>https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1555/direct-marketing-guidance.pdf<br>Asesiadau effaith diogelu data<br>https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/accountability-and-governance/data-protection-impact-assessments/<br><br>**Y Rheoleiddiwr Codi Arian**<br>Cod Ymarfer Codi Arian<br>https://www.fundraisingregulator.org.uk/code<br><br>**CIoF**<br>Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol: Yr Hanfodion ar gyfer Sefydliadau Codi Arian<br>https://ciof.org.uk/events-and-training/resources/gdpr-the-essentials |

**Cefnogwyd gan:**